



Diogelwch ar y Rhyngrwyd Cymru

Hybu Llythrennedd Digidol i Blant a
Phobl Ifanc Cymru

Pobl Ifanc, Technolegau Symudol a Rhyngrwyd 2008 – Uchafu Cyfleoedd, Taclo Heriau

Cydnabyddiaeth

Hoffai WISE KIDS a DARC ddiolch i'w prif noddwyr ar gyfer y gynhadledd hon sef y canlynol:

BT, Ofcom, Fujitsu a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Hoffai WISE KIDS hefyd ddiolch i'n harddangoswyr a'n partneriaid cynadledda:

Arddangoswyr: NGfL Cymru, Promo Cymru, RSC Cymru, LL4Schools, CEOP, Meddalwedd Securus, Canllaw-Arlein, EPICT

Hefyd:

- Canllaw-Arlein (am noddi'r Gwobrau Iwcus)
- TG Cymru (am gefnogi digwyddiad cefnogi cyfatebol yng Ngogledd Cymru)
- UCAC (am gefnogi'r cyfleuster ar gyfer cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg yn y Gynhadledd)

Dubble Chocolate (am gyflenwi siocled ar gyfer y cynrychiolwyr!)

Ofcom

Yn y tirlun cyfryngol a chyfathrebiadau cyfnewidiol a chyflym sydd ohoni, mae angen y grym arnom oll i reoli ein perthynas â chynnwys a gwasanaethau sydd naill ai'n cael eu darlledu neu eu hanfon arlein. Pan fydd modelau traddodiadol rheoleiddio cynnwys yn mynd yn llai effeithiol yn eu gallu i isafu niwed a throseddu, rhaid i ni droi at rieni, gofalwyr ac unigolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros yr hyn y byddant hwy a phlant yn ei weld a'i glywed ar deledu, radio ac arlein.

Mae Ofcom yn diffinio llythrennedd cyfryngol fel hyn

Llythrennedd cyfryngol yw'r gallu i gyrchu, deall a chreu cyfathrebiadau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Bwriad gwaith Ofcom wrth hybu llythrennedd cyfryngol yw:

- rhoi cyfle i bobl a'u hysgogi i ddatblygu'r cymhwysedd a'r hyder I gyfranogi mewn cymdeithas ddigidol,a
- rhoi'r wybodaeth a'r grym i bobl i reoli eu gweithgareddau cyfryngol eu hunain (wrth eu treulio a'u creu)

Mae dull Ofcom o weithredu wedi bod, ac yn parhau i fod yn un sydd yn cynnig arweiniad ac yn dylanwadu ar randdeiliaid gan gynnwys gwneuthurwyr polisi, addysg, diwydant a'r drydedd sector i hybu llythrennedd cyfryngol ar gyfer holl aelodau cymdeithas.

http://www.ofcom.org.uk/advice/media_literacy/

Fujitsu

Mae Fujitsu yn ddarparwr TG gyda ffocws pendant ar y cwsmer a datrysiadau cyfathrebu blaenllaw ar gyfer y farchnad fyd-eang a chanddo hanes hir o ymwneud â'r Sector Cyhoeddus yn enwedig o fewn y DU.

Mae'r ffaith fod ganddo dechnolegau dyfeisio sydd yn gosod cyflymdra, cynnyrch cyfrifiadurol a chyfathrebu dibynadwy iawn, a chorff byd-eang o arbenigwyr systemau a gwasanaethau yn ei osod mewn safle unigryw i gyflwyno datrysiadau cynhwysfawr sy'n agor posibiliadau dibendraw ar gyfer llwyddiant ei gwsmeriaid.

Yn ogystal, mae Fujitsu wedi bod yn ymwneud â nifer o brosiectau wedi'u hanelu'n benodol at bobl ifanc ac addysg megis Young Scot, Y Cyngor eSgiliau a Credu.

<http://www.fujitsu.com/uk>

BT

Mae BT Cymru yn ymroddedig i'r un pwrpas o drosglwyddo'i weledigaeth ddigidol, gan ddarparu'r technolegau mwyaf diweddar fydd yn fuddiol i fusnes, iechyd, addysg, llywodraeth a chymunedau lleol Cymru.

Mae BT hefyd wedi buddsoddi'n drwm mewn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, gan ail-lansio'i Bolisi Dwyieithog – gafodd ei ganmol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a sefydliadau eraill ar draws Cymru am ei ymrwymiad i'r iaith ac i gymunedau Cymru – a darparu gwasanaeth newydd ar gyfer archebu band llydan drwy gyfrwng y Gymraeg.

<http://www.bt.com>

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw codi lefelau cyrhaeddiad pobl Cymru drwy ei pholisïau addysg a hyfforddiant. Trwy'r polisïau hyn, bydd yn mynd ati i geisio cyflawni'r lles cymdeithasol ac economaidd sy'n allweddol i ddatblygu economi lewyrchus.

Rydym yn hyrwyddo diwylliant dysgu gydol oes er mwyn helpu i wella cyfleoedd pobl ym mhob cam yn eu bywydau, o'r ysgol i'r coleg neu brifysgol, yn ogystal â thrwy gyfrwng hyfforddiant yn y gweithle.

Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n darparu'r arweiniad, y polisïau a'r canllawiau i randdeiliaid allweddol sy'n ymwneud ag addysg, dysgu gydol oes a sgiliau. Ein strategaeth ar gyfer cyflawni'r polisïau hyn yw 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'.

<http://www.cymru.gov.uk>

UCAC

UCAC yw'r Undeb Cenedlaethol cyfrwng Cymraeg ar gyfer athrawon Cymru. Mae UCAC yn cynnig gwasanaeth proffesiynol i'r aelodau ac yn eu cynrychioli yn lleol ac yn genedlaethol. Mae gennym lais cryf ar yr holl gyrff sydd yn ymwneud â byd addysg ac rydym yn cynrychioli buddiannau ein haelodau yn y Cynulliad ac yn San Steffan. Ni yw'r unig undeb sydd yn medru canolbwyntio yn gyfan gwbl ar fuddiannau athrawon Cymru a byd addysg Cymru.

Mae UCAC yn hybu defnydd cyfrifol a diogel o dechnoleg newydd, er budd holl ddisgyblion ac athrawon Cymru.

<http://www.athrawon.com/>

GCaD Cymru

Mae GCaD Cymru wedi bod yn ymwneud â datblygu a lledaenu adnoddau dysgu ac addysgu arlein ers 2002 ac yn gyfredol yn darparu dros 3000 o becynnau adnodd i gefnogi plant a phobl ifanc rhwng 3 a 19 mlwydd oed.

Mae'r pwyslais ar ddatblygiad wedi'i ganoli o gwmpas adnoddau sydd yn rhyngweithiol, yn hybu dysgu ac addysgu da, yn cefnogi'r cwricwlwm cymreig ac yn ddwyieithog.

<http://www.gcad-cymru.org.uk>

Canllaw Arlein

Mudiad di-elw ac elusen gofrestredig yw Canllaw Arlein Cyf a sefydlwyd i ddatblygu a chefnogi gwasanaethau gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc, gan gynnig nifer o wasanaethau dwyieithog cysylltiedig â dosbarthu gwybodaeth drwy gyfres o fentrau unigryw, ar gyfer pobl ifanc a darparwyr gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc.

<http://www.canllaw-arlein.com/>

ProMo-Cymru Cyf.

Gan anelu at wireddu potensial pobl ifanc, mae ProMo-Cymru Cyf yn ymrwymedig i ddatblygu offer cyfathrebu aml-gyfrwng, fydd yn plesio pobl ifanc i'r eithaf a darparu cyfleoedd ar gyfer eu datblygiad, cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Yn dilyn y datblygiad newydd CLIC ar-lein, byddwn yn gweithio'n uniongyrchol gydag anghenion cymunedau lleol gan goladu a datblygu gwybodaeth o ansawdd ac enghreifftiau o arfer gorau, a gosod cyfranogiad pobl ifanc yn ganolbwynt i'r broses. Ein bwriad yw datblygu ac ysbrydoli pobl ifanc i gyrraedd eu potensial llawn drwy ddarparu gwybodaeth berthnasol wedi'i chyflwyno mewn dulliau sydd yn apelio atynt. Bydd hynny'n eu galluogi i wneud penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth, gan feithrin agwedd mwy annibynnol, ac yn y pendraw yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu dyfodol eu hunain.

<http://www.promo-cymru.org>

Canolfan Gefnogi Ranbarthol Cymru JISC

Mae'r Ganolfan Gefnogi hon yn un o 13 o ganolfannau tebyg ar draws y DU. Ein gwaith ni yw datblygu e-ddysgu a Thechnoleg Dysgu Gwybodaeth yn y sector addysg ôl-16 yng Nghymru. Rydym yn cwmpasu dysgu ac addysgu, rheoli, datblygiad staff, TG technegol, a chefnogi busnes drwy roi cyngor ac arweiniad, cyfleoedd i ddatblygu staff a fforymau trafod, yn ogystal ag amrediad o gynadledau a digwyddiadau. Rydym hefyd yn gweithio'n glos gydag amrywiaeth o wasanaethau Ymgynghori JISC er mwyn cael cefnogaeth arbenigol.

<http://www.rsc-cymru.ac.uk>

CEOP

Mae canolfan Camfanteisio ar Blant a'u hamddiffyn Arlein yn gweithredu yn y DU i adnabod, lleoli a diogelu plant a phobl ifanc oddi wrth gamfanteisio rhywiol a chamdrin arlein, yn fyd-eang ac yn y DU. Mae CEOP yn gorfodi'r nod hwn drwy alw troseddwy'r i gyfrif am eu gweithredoedd, gwella ar yr ymateb presennol i sicrhau bod y rhyngwyd yn fwy diogel o ran dyluniad a thrwy roi grym a hawl yn nwylo pobl ifanc a'r rhai hynny sydd mewn cysylltiad â hwy, trwy drefnu ymgyrchoedd addysg arbenigol. Bydd CEOP yn gweithredu ar lefel ryngwladol drwy'r Tasglu Byd-eang Rhithiol (VGT).

<http://www.ceop.gov.uk>

LL4Schools

Rhwydwaith cymdeithasol e-ddiogel ar gyfer ysgolion yw LL4Schools, o fewn y Rhwydwaith Addysg Cenedlaethol, sydd yn gallu olrhain yn llawn bob defnyddiwr yn ôl at yr unigolyn hwnnw o fewn bob ysgol fydd wedi tanysgrifio. Mae'r olrheindedd hwn yn rhoi'r hyder i athrawon i greu cyfrif ar gyfer pob disgybl yn eu hysgol. Mae'r potensial ar gyfer cydweithio llwyddiannus rhwng ysgolion, yr agweddau cymhelliant diamheuol o gael cynulleidfa bydeang, a chost isel iawn yn gwneud LL4Schools yn llwyfan delfrydol i archwilio manteision addysgol technolegau gwefan2.0. Ynghyd ag amrywiaeth o offer Gwefan2.0 (blogiau, fforymau, wikis, storio ffeiliau, RSS, podgastio, nodau tudalennau cymdeithasol, ac ati) a rheolaethau manwl dros fynediad, bydd gan ddefnyddwyr LL4Schools hefyd y gallu i greu cymunedau o ddefnyddwyr ac, wrth gwrs, bydd ganddynt "ffrindiau".

<http://www.ll4schools.co.uk>

Securus

Mae Securus yn codi safonau diogelwch drwy leihau seiberfwlio, diogelu'r rhai hynny sydd dan risg a chadw disgyblion yn ddiogel ac wrth eu gwaith. Tynnir sylw staff at flocio aneffeithiol a sefyllfaoedd niweidiol, gyda thystiolaeth sgrinllun er mwyn cyfyngu ar atebolrwydd.

Rydym yn gweithio gyda:

- Ysgolion i ddarparu datrysiadau ymarferol, gorfodi AUPs a rhannu arfer gorau
- Cyrff rhanbarthol i sefydlu gwasanaeth monitro fydd yn cael ei reoli'n lleol neu'n ganolog
- Gwasanaethau Plant i ddiogelu plant sy'n cael eu gwarchod a phlant teithiol

Bydd Securus yn cefnogi canllawiau Becta drwy weithredu dull cymuned gyfan.

<http://www.securus-software.com>

EPICT

Cwrs hyfforddant mewn swydd cynhwysfawr, hyblyg ac effeithiol yw EPICT, y Drwydded TGCh Pedagogegol Ewropeaidd, sydd yn cyflwyno safon ansawdd Ewropeaidd ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon wrth iddynt integreiddio gwybodaeth, cyfryngau a thechnolegau cyfathrebu (TGCh) yn bedagogegol mewn addysg.

Mae EPICT yn cwmpasu cynnwys, dull, technoleg a phrosesau, y cyfan yn cael eu rheoli'n rhyngwladol gan y Grŵp EPICT ac yn genedlaethol gan EPICT y wlad, gan alluogi'r amgylchfyd cenedlaethol i dderbyn cydnabyddiaeth ac achrediad am ei ddatblygiad proffesiynol.

<http://www.epict.org>

TGCymru

Uned gyswllt ddiwydiannol Adran Gwyddoniaeth Cyfrifiadura, Prifysgol Cymru Abertawe yw TGCymru. Mae'r Adran yn un o'r rhai mwyaf enwog yn y DU, gydag enw da cynyddol am yr ymchwil a wna yn genedlaethol a rhyngwladol.

Mae TGCymru yn darparu cefnogaeth ymarferol hygyrch i fusnesau yng Nghymru, gan eu galluogi i gynnwys datblygiad TGCh. Mae TGCymru yn adnabod beth fydd gofynion posibl busnesau o ran Technoleg Gwybodaeth ac yn datblygu ei gysylltiadau unigryw gydag academia i gynorthwyo busnesau i aros yn gystadleuol, yn arlesol ac ar flaen y gad.

<http://www.itwales.com>

Dubble

Dubble... yn ddigywilydd gyrraedd man lle na fu'r un siocled o'r blaen!

Lansiwyd siocled Masnach Deg Dubble gan Siocled Divine a Diwrnod Plant mewn Angen yn y flwyddyn 2000. Fe'i lluniwyd a'i ddatblygu yn dilyn mewnbwn oddi wrth filoedd o blant o'r syniad cyntaf un hyd at y cynnyrch terfynol. Mae ethos Dubble 'gan blant i blant' wedi parhau i hybu ei ddatblygiadau arlein – ac erbyn hyn mae'n cael ei gefnogi gan gymuned o 50,000 o Asiantau Dubble sydd wedi arwyddo i newid y byd dalp wrth dalp!

<http://www.dubble.co.uk>